CRYNODEB Y TÎM GWEITHREDOL

# Gyrfaoedd mewn Adeiladu




Chwefror
**2024**

Rhaid gweithredu arferion recriwtio llwyddiannus i oresgyn yr heriau a'r pryderon hyn.



# Rhagair

## Mae'r diwydiant adeiladu wedi hen fynd i'r afael â heriau recriwtio a chadwraeth, wedi'u gwaethygu gan brinder sgiliau a diffyg amrywiaeth nodedig.

Ar draws economi'r DU mae'r nifer o swyddi gweigion yn parhau i fod yn uchel ac eto felly nifer y bobl o oedran gweithio nad ydynt yn gallu dod o hyd i waith sy'n cyd-fynd â'u hamgylchiadau. Mae cynlluniau'r Llywodraeth i gyfyngu ar ymfudo yn debygol o roi pwysau pellach ar yr angen i lenwi swyddi gweigion. A, thros amser, bydd newid yn y boblogaeth yn gweld mwy o bobl sydd wedi ymddeol a llai o bobl o oedran gweithio.

Mae'r materion hyn, sy'n gyffredin ar draws pob sector, yn tanlinellu pwysigrwydd ehangu apêl y diwydiant adeiladu i ddemograffeg ehangach, o ran maint ac amrywiaeth y gweithlu ill dau.

Rydym wedi pwysleisio yn ein Cynllun Strategol a'n Cynllun Busnes, bwysigrwydd denu pobl ar gamau amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n gadael addysg, gweithwyr proffesiynol ar ddechrau eu gyrfa, y rhai sy'n newid gyrfa a'r rhai sy'n ailymuno â'r gweithlu.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i'r diwydiant nodi'r ffactorau sy'n ei wneud yn ddeniadol i grwpiau amrywiol a deall sut mae'r dewisiadau hyn yn wahanol. Rhaid iddo hyrwyddo'r ffactorau hyn yn effeithiol er mwyn annog pobl sydd â'r sgiliau a'r nodweddion dymunol i ystyried gyrfa ym maes adeiladu.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod ymdrechion hyrwyddo'r diwydiant yn cyd-fynd â phrofiadau gwirioneddol unigolion sy'n dechrau ac yn aros ym maes adeiladu. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau i weithio yn y sector adeiladu a deall beth sy'n gwneud diwydiannau cystadleuol yn fwy apelgar.

Rhaid gweithredu arferion recriwtio llwyddiannus i oresgyn yr heriau a'r pryderon hyn. Bydd hyn yn sicrhau nid yn unig atyniad cychwynnol ond hefyd cadwraeth tymor hir a chyflenwad parhaus o bobl i mewn i'r diwydiant adeiladu.



**Lucie Wright**
**Rheolwr Strategaeth Gyrfaoedd CITB**

# Cefndir

Mae'r ymchwil Gyrfaoedd mewn Adeiladu hwn yn ymhelaethu ar sylfaen dystiolaeth CITB sy'n llywio strategaeth ac yn sail i gynllunio sgiliau diwydiant. Yn 2022, cynhaliodd CITB Rethinking Recruitment, a archwiliodd safbwyntiau ar yr hyn sy'n gwneud adeiladu yn ddewis gyrfa deniadol, yn ogystal â chanfyddiadau, camdybiaethau, a delwedd y diwydiant.

Bydd CITB nesaf yn archwilio amgylchiadau, cymhellion a chyfyngiadau pobl nad ydym wedi'u deall o'r blaen, gan ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwchradd gynnar. Bydd hyn yn golygu cael dealltwriaeth ddyfnach o'r daith gyfan i yrfa ym maes adeiladu. Bydd hefyd yn ein helpu i ddeall beth, fel diwydiant, y gallem ei wneud i sefydlu dyfodol mwy amrywiol, teg a galluog.

Bydd cynulleidfaoedd newydd yn cynnwys y blynyddoedd cynnar (3-5 oed), y blynyddoedd cynradd (5-11 oed) a'r blynyddoedd uwchradd cynnar (11-14 oed), yn ogystal ag athrawon ysgol gynradd, pobl mewn addysg alwedigaethol, a'r rheini y tu allan i'r farchnad lafur.

# Y dadansoddiad hyd yn hyn

Mae'r ymchwil Gyrfaoedd mewn Adeiladu hyn yn tynnu ar dystiolaeth gynradd gan nifer fawr ac ystod eang o randdeiliaid.

Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n gweithio yn y diwydiant adeiladu, newydd-ddyfodiaid a gweithwyr sefydledig, yn ogystal ag unigolion y tu allan i'r diwydiant adeiladu, y rhai sy'n gweithio mewn sectorau eraill, pobl ifanc sydd ar y cyfan yn dal i fod mewn addysg, rhieni pobl ifanc, a gweithwyr cyfarwyddyd gyrfa proffesiynol.

Mae'r adroddiad yn rhoi mewnwelediadau allweddol i ni gan y rhai y tu mewn a'r tu allan i'r diwydiant adeiladu i ddeall sut mae gyrfaoedd yn y diwydiant adeiladu yn cael eu gweld a'u profi. Mae'n cyflwyno Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) i gefnogi'r monitorio a gwerthuso o weithgareddau gyrfaoedd CITB gydag ystod eang o randdeiliaid.





# Canfyddiadau Allweddol

Mae'r dadansoddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau i'n helpu i ddeall yn well beth allai helpu i gefnogi newid cadarnhaol, ac olrhain a chefnogi'r canlynol.

## Agweddau, atyniad ac ymwybyddiaeth o'r diwydiant adeiladu

Mae gweithwyr adeiladu, newydd a sefydledig ill dau, fel arfer yn gweld y diwydiant mewn olau cadarnhaol, gan werthfawrogi'r sicrwydd swydd, tâl cystadleuol, cyfleoedd dilyniant, a'r amrywiaeth o rolau y mae'n ei gynnig. Mae natur ddiddorol ac ymarferol y gwaith, yn ogystal â'r cyfle i fod yn greadigol a gweld canlyniadau diriaethol yn ffactorau atyniad arwyddocaol.

Fodd bynnag, mae ystrydebau negyddol yn dylanwadu ar ganfyddiadau allanol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc a'r rheini y tu allan i'r sector, sy'n effeithio ar atyniad cyffredinol y diwydiant.

Cafodd adeiladwaith ei restru fel y trydydd diwydiant ar y cyd y byddai pobl ifanc yn hoffi gweithio ynddo fwyaf. Dywedodd 23% y byddent yn ystyried gweithio ym maes adeiladu, ond dywedodd 21% na fyddent byth yn ei ystyried.

Fe'i gosodwyd yn chweched gan rieni, ac yn uchel gan weithwyr cyfarwyddyd gyrfa proffesiynol ond hwn oedd y sector lleiaf poblogaidd ymhlith darpar ddechreuwyr yn gweithio o fewn sectorau eraill.

Er gwaethaf profiadau cadarnhaol ymhlith gweithwyr adeiladu a safle cymharol uchel ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau, mae'r sector yn wynebu heriau o ran troi'r diddordeb cychwynnol hwnnw yn gamau gweithredol a denu a chadw gweithlu digonol.

## Canfyddiadau am fynediad a chyrchu'r diwydiant

Mae gweithwyr adeiladu yn pwysleisio'r apêl o fynediad hawdd ac argaeledd swyddi lleol fel ffactorau arwyddocaol sy'n dylanwadu ar eu penderfyniad i ymuno â'r diwydiant.

Mae gwybodaeth am adeiladu ac atyniad i adeiladu yn parhau i fod â chysylltiad cryf. Po fwyaf y mae pobl yn gwybod am y diwydiant y mwyaf deniadol y maent yn tueddu i'w canfod, ac i'r gwrthwyneb.

Fodd bynnag, mae canfyddiadau allanol yn awgrymu bod heriau o hyd o ran goresgyn stereoteipiau am adeiladu megis ei fod yn waith corfforol beichus, yn yr awyr agored a gwrywaidd ei natur.

Mae ymdrechion wedi'u gwneud i wella delwedd y sector a mynd i'r afael â chamdybiaethau, yn enwedig ymhlith darpar ymgeiswyr o ddiwydiannau eraill. Fodd bynnag, i lawer o ddarpar ymgeiswyr nid yw'r ddelwedd well yn cyfateb i'r realiti sydd heb ei wella. Nod Am Adeiladu yw mynd i'r afael â'r camdybiaethau hyn drwy ddarparu adnoddau i bobl sy'n chwilio am yrfa ym maes adeiladu. Mae'r wefan yn arddangos y llu o yrfaoedd gwerth chweil ym maes adeiladu. Fideos Cynghorwyr Gyrfa: Fideos Gyrfa Adeiladu | Am Adeiladu.

# Ymgysylltiad â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd adeiladu

Er bod arweiniad gyrfa yn ymwneud ag adeiladu yn cael ei ystyried o ansawdd da, cydnabyddir bod angen mwy o gymorth i sefydlu cysylltiadau personol o fewn y diwydiant.

Roedd gan ddwy ran o dair o'r newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu aelod o'r teulu neu ffrind â phrofiad ym maes adeiladu. Mae cysylltiadau personol â'r diwydiant yn parhau i fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am fanteision gweithio ym maes adeiladu ac yn borth i gael cyfleoedd i gael profiad uniongyrchol o'r diwydiant.

Mae newydd-ddyfodiaid yn canfod gwahanol elfennau o gyngor gyrfaoedd yn hygyrch. Fodd bynnag, mae lle i wella, yn enwedig o ran gwella perthnasau, cysylltiadau a phrofiadau gwirioneddol â'r sector adeiladu.

[Digger Girl yn ymuno â CITB i helpu lledaenu'r newydd am yrfaoedd adeiladu| Project Plant]

[O brentis NCC i seren y cyfryngau cymdeithasol - CITB]

# Dylanwad gweithgareddau CITB

Mae dros draean o bobl ifanc a rhieni a gyfwelwyd wedi cael eu hamlygu i hysbysebion CITB, sy'n dangos lefel dda o ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn awgrymu y gellir gwneud mwy i ddefnyddio gweithgareddau CITB i'r eithaf i gael mwy o ddylanwad, yn enwedig wrth fynd i'r afael â phroblemau delwedd diwydiant ac annog neu hwyluso cyfleoedd trwy brofiad a meithrin cysylltiadau personol.

Mae angen dilyn cynnydd mewn ymwybyddiaeth â chyfleoedd diriaethol. Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu bod angen atgyfnerthu negeseuon yn gyson dro ar ôl tro, nid yn unig i atgoffa cynulleidfaoedd beth yw'r cyfleoedd, ond sut y gallant gael mynediad at hyfforddiant a dod o hyd i swyddi boddhaus a gwerth chweil ym maes adeiladu. Nid yw'n ddigon gwneud pwynt yn dda, mae angen ei ailadrodd yn aml ac mewn ffyrdd amrywiol.

Mae CITB wedi ymuno ag Amy Underwood a elwir yn 'Digger Girl' ar gyfryngau cymdeithasol. Dechreuodd Amy ei gyrfa yng Ngholeg Adeiladu Cenedlaethol CITB ac mae'n eiriolwr cryf ac yn unigolyn y gellir uniaethu â hwy i bobl ifanc sy'n hyrwyddo cyfleoedd adeiladu i bawb trwy ei llwyfannau cymdeithasol ar TikTok.

Mae arweiniad gyrfaoedd mewn lleoliadau addysgol yn ffordd bwysig i CITB ymgysylltu â phobl ifanc. Teimlai gweithwyr cyfarwyddyd gyrfa proffesiynol eu bod yn deall adeiladu, â'r rheini sydd wedi gweithio â CITB yn teimlo'n fwy gwybodus.

Mae angen dull integredig i wella effeithiolrwydd mentrau CITB wrth lunio agweddau, canfyddiadau ac ymgysylltiad â'r diwydiant adeiladu.

# Y cyd-destun ehangach

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod dewisiadau bywyd, gan gynnwys y rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau gyrfa, yn cael eu gwneud yn ifanc iawn. Drwy ymgysylltu â phobl ifanc, ar ôl 16 mlwydd oed, rydym eisoes yn rhy hwyr.

Nododd adroddiad ymchwil Rethinking Recruitment CITB yn 2022, fod 30% o bobl y tu allan i'r diwydiant yn teimlo bod adeiladu 'i rywun fel fi.' Dim ond 17% oedd yn teimlo bod adeiladu 'yn ddeniadol i mi.'

Ers hynny, mae atyniad wedi gostwng ychydig i 15%. Gostyngodd ar gyfer pobl ifanc, rhieni, a gweithwyr cyfarwyddyd gyrfa proffesiynol.

Arhosodd y gwahaniaeth mewn canfyddiadau rhwng mewnwyr i'r diwydiant a'r allanwyr yn gyson ar draws y ddau ddarn ymchwil. Mae mewnwyr yn ystyried adeiladu yn amrywiol, yn hyblyg, ac yn cyd-fynd â'u gwerthoedd. Mae allanwyr yn aml yn anghytuno.

Dyma pam mae CITB yn adeiladu sylfaen dystiolaeth i lywio ein strategaeth hirdymor, â'r nod o ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i sicrhau bod adeiladu ar yr agenda ac yn cael ei gynrychioli'n deg mewn dysgu sy'n gysylltiedig â gyrfa yn y blynyddoedd cynnar.

Bydd ein hymchwil gyrfaoedd yn y dyfodol yn ystyried sut i adael i blant ddod i wybod am yrfaoedd yn y diwydiant adeiladu yn llawer iau, gan ddangos yr ystod o bosibiliadau a chadw'r rhain yn agored cyhyd â phosibl.

Gall hyn hefyd helpu i gael gwared yn raddol ar stereoteipio gyrfaoedd a galwedigaethau ar sail rhyw. Erbyn ysgol uwchradd, mae barn eisoes wedi'i ffurfio am adeiladu a gall fod yn rhy hwyr i newid meddyliau.

Gan adeiladu ar Rethinking Recruitment a'r ymchwil Gyrfaoedd mewn Adeiladu hwn, bydd y darn nesaf hwn yn sicrhau bod gweithgareddau gyrfaoedd CITB yn ysbrydoli mwy o newydd-ddyfodiaid i ymuno ag adeiladu, wrth barhau i gefnogi cyflogwyr i recriwtio ar gyfer swyddi gwag i fodloni'r prinder sgiliau.



Bydd ein hymchwil gyrfaoedd yn y dyfodol yn ystyried sut i adael i blant ddod i wybod am yrfaoedd yn y diwydiant adeiladu yn llawer iau, gan ddangos yr ystod o bosibiliadau a chadw'r rhain yn agored cyhyd â phosibl.

# Rôl CITB

Mae CITB yn gweithio â diwydiant i ddenu, recriwtio a chadw'r gweithlu.

## Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd

Teimlai pobl ifanc a rhieni fod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd o ansawdd da. Yn ogystal, canfu newydd-ddyfodiaid ei bod yn hawdd cael gafael ar gyngor gyrfaoedd.

Mae hyn yn cynnwys mwyafrif yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gallu cael mynediad at wybodaeth gyrfaoedd o ansawdd da, canfod sut brofiad yw gweithio ym maes adeiladu, canfod cyfleoedd ar gyfer datblygiad a dilyniant, a dod o hyd i gyfleoedd gwaith yn hawdd.

Mae CITB yn darparu gwybodaeth gyrfaoedd adeiladu trwy Am Adeiladu. Mae'r wefan gyrfaoedd hon yn rhoi gwybod i bobl sut i ymuno, hyfforddi a symud ymlaen ym maes adeiladu, mae hefyd yn rhannu mewnwelediadau personol i'r hyn y mae'r diwydiant yn ei gynnig. Rydym yn gwella Am Adeiladu gyda chysylltiadau dyfnach â Talentview Construction, sy'n galluogi pobl i ddod o hyd i brofiad gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd gwaith lleol.



## Profiadau ar y safle

Fe all marchnata a hysbysu ond mynd cyhyd, ac er bod straeon a mewnwelediadau personol yn gymhellol, mae'n well rhoi cyfleoedd i unigolion rhoi cynnig arnynt eu hunain.

Mae sesiynau blasu adeiladu, gan gynnwys teithiau safle a phrofiad gwaith, a hybiau Profiad Ar Y Safle, sy'n darparu profiad adeiladu ymarferol ar y safle, yn llenwi'r bwlch hwn.

Mae CITB yn cefnogi cyflogwyr i ddarparu sesiynau blasu, gan rannu canlyniadau cadarnhaol a chyngor ar eu rhedeg. Rydym yn gweithredu rhwydwaith o 12 hwb Profiad Ar Y Safle, gan ddenu pobl o gronfeydd talent newydd ac ehangach nad ydynt efallai'n ystyried maes adeiladu fel arfer. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r mentrau hyn.

## Llysgenhadon

Teimlai lleiafrif sylweddol nad yw pobl fel nhw yn gweithio ym maes adeiladu. Mae canfyddiadau ac atyniad tuag at y diwydiant yn gwella pan welant hynny.

Mae Llysgenhadon STEM Am Adeiladu yn fodelau rôl gweladwy, sy'n barod i godi eu lleisiau i hyrwyddo adeiladu wyneb yn wyneb â phobl ifanc. Gan gynrychioli pobl o gefndiroedd a chymunedau amrywiol, mae'r rhaglen llysgenhadon yn manteisio ar gronfa ddofn o hyrwyddwyr diwydiant.

Gall diffyg amrywiaeth a chynhwysiant canfyddedig fod yn rhwystr sylweddol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae llysgenhadon yn ceisio lliniaru hyn trwy weithredu fel wyneb i adeiladwaith.



Er mwyn denu'r rhai sy'n newid gyrfa, dylai cyflogwyr gynnig llwybrau a dulliau recriwtio lluosog er mwyn sicrhau mynediad rhwydd, parhaus i'r sector.

# Yr hyn y gall cyflogwyr ei wneud

## Gwella dealltwriaeth, a phrofiad o adeiladu

Mae'r rhai y tu allan i adeiladwaith yn parhau i fod â golygfa gul ohono. Mae hyn yn cynnwys sut i fynd i mewn i'r sector a sut brofiad yw gweithio ynddo.

Dylai cyflogwyr godi ymwybyddiaeth trwy gynnig profiad gwaith, ymweliadau safle a sgyrsiau. Mae hyn yn creu mewnwelediad gwirioneddol i weithio ym maes adeiladu ac yn galluogi pobl i feithrin cysylltiadau.

Gall gwasanaethau gyrfaoedd lleol, megis canolfannau gwaith, elusennau, a darparwyr gyrfaoedd o fewn a thu allan i addysg fod yn gyswllt rhwng cyflogwyr a recriwtiaid newydd. Trwy ymgysylltu â nhw ymhellach a phwyso ar eu harbenigedd, gall cyflogwyr chwarae rhan weithredol wrth wneud gyrfaoedd adeiladu yn fwy hygyrch.

Dylai cyflogwyr hefyd wella hygyrchedd i'r rhai heb gysylltiadau â diwydiant. Gall hyn gynnwys gosod hysbysebion swyddi y tu allan i safleoedd adeiladu neu fynychu ffeiriau a digwyddiadau gyrfaoedd.

## Ehangu atyniad gyrfaoedd adeiladu

Mae canfyddiadau o weithio ym maes adeiladu yn amrywio'n fawr rhwng y rhai y tu mewn a'r tu allan iddo.

Gall cyflogwyr wneud eu cwmnïau yn fwy deniadol i bobl ifanc, rhieni a phobl ag anableddau trwy gynnig cyfleoedd gwaith mwy hyblyg.

Gall hyn gynnwys newid patrymau gwaith gyda rhannu swydd, oriau rhan-amser neu gywasgedig, oriau hyblyg neu gyfnodol, newidiadau i amseroedd dechrau a gorffen, a chael patrymau gwaith rhagweladwy.

Er mwyn denu'r rhai sy'n newid gyrfa, dylai cyflogwyr gynnig llwybrau a dulliau recriwtio lluosog er mwyn sicrhau mynediad rhwydd, parhaus i'r sector.

Er mwyn ehangu apêl y diwydiant i grwpiau newydd o weithwyr a chwalu stereoteipiau, gall cyflogwyr ddangos yr amrywiaeth o rolau a llwybrau gyrfaol sydd ar gael gan ddefnyddio enghreifftiau a straeon personol. Gall hyn hyrwyddo rolau penodol ochr yn ochr â gwybodaeth generig am y diwydiant.

# Gwella diwylliant y gweithle

Gall y diwylliant *macho* canfyddedig, diffyg cynhwysiant ac ymddygiad gwael atal mynediad posibl, yn enwedig ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (menywod, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac unigolion hŷn).

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai cyflogwyr ddarparu prosesau ar gyfer adrodd yn ddienw ar ymddygiad ac agweddau gwael. Dylid dilyn pob adroddiad ag ymchwiliad a chamau gweithredu.

Dylid cyfathrebu'r ymddygiad y maent yn ei ddisgwyl gan weithwyr a'i nodi mewn polisïau clir. Gellir defnyddio hyfforddiant ar y safle a chyflwyniadau diogelwch (toolbox talks) i atgoffa pobl o ymddygiad disgwyliedig. Lle mae gwelliannau wedi'u gwneud, dylid eu hamlygu i wella hyder yn y gweithle.

Lle mae gwelliannau wedi'u gwneud, dylid eu hamlygu i wella hyder yn y gweithle.



# Cyfleoedd i'r diwydiant

## Adeiladu cysylltiadau gyrfaoedd gwell

Mae gwell dealltwriaeth o'r diwydiant yn gysylltiedig â chanfyddiadau mwy cadarnhaol sy'n creu mwy o debygolrwydd y bydd pobl yn ystyried gyrfa mewn adeiladwaith.

Dylai'r diwydiant ehangu ar hyn drwy gryfhau cysylltiadau rhwng cyflogwyr, athrawon, gweithwyr cyfarwyddyd gyrfa proffesiynol a sefydliadau fel CITB. Dylid helpu'r rhai y tu allan i'r diwydiant adeiladu i ddatblygu cysylltiadau a phrofiadau go iawn â'r sector.

Mae mentrau diwydiant, fel Hyfforddeithaethau Galwedigaethol a Bwtcamps Sgiliau, yn darparu pont ddefnyddiol rhwng addysg a gwaith, ac yn helpu darpar weithwyr i gryfhau cysylltiadau ystyrlon yn y diwydiant.

## Targedu negeseuon at y grwpiau cywir

Gall diwydiant ddangos sut y gall gyrfaoedd ym maes adeiladu alinio â gwerthoedd pobl drwy hyrwyddo'r amrywiaeth o rolau, tâl da, gwaith diddorol, a chyfleoedd i wneud gwahaniaeth y mae'r diwydiant yn eu cynnig.

Targedu pobl iau (14 oed ac iau) cyn iddynt gyfyngu ar eu hopsiynau gyrfa. Yn gyffredinol, maent yn fwy agored i yrfaoedd adeiladu na grwpiau eraill a dylid manteisio ar hyn.

Lle mae arferion gweithio hyblyg ar gael, megis gweithio o bell ac oriau hyblyg, dylid eu hamlygu a'u cyfathrebu. Byddai hyn yn arbennig o gymorth i ddenu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r rhai sy'n newid gyrfa.

Er mwyn denu gweithwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gellir annog gweithwyr presennol i weithredu fel modelau rôl a llysgenhadon.

## Rhannu arferion gweithio cadarnhaol

Dylai'r diwydiant weithio gyda hyfforddwyr ac addysgwyr i ymgorffori diwylliannau ac ymddygiad dymunol mewn rhaglenni hyfforddi, a chefnogi cyflogwyr i gyflwyno'r rhain.

Rhannu'r camau a gymerwyd a'r gwelliannau a wnaed ar draws y sector i wella dealltwriaeth bod y sector yn gweithio i sicrhau ei fod yn lle i bawb. Dylanwadu gweithwyr cyfryngau cymdeithasol ac arweiniad gyrfa proffesiynol i rannu'r negeseuon hyn am newid cadarnhaol.

Cyrraedd grwpiau eraill, nodi a rhoi cyhoeddusrwydd i enghreifftiau o arfer da ac amlygu hyrwyddwyr allweddol o'r sector i fynd i'r afael ag ymddygiadau negyddol a hyrwyddo cynhwysiant.



# Methodoleg

Cynhaliwyd yr ymchwil ar ran CITB gan y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth a BMG Research. Roedd yn cynnwys:

**Cam 1:**

Mewnwelediadau gan oedolion yn, neu'n agos at, y farchnad lafur, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ym maes adeiladu (mewnwyr) a darpar ddechreuwyr i'r sector (allanwyr).

**Cam 2:**

Adborth gan bobl ifanc (14-18 oed), rhieni pobl ifanc a gweithwyr cyfarwyddyd gyrfa proffesiynol.

Ar draws dau gam yr ymchwil ymgynghorwyd â 3,518 o bobl trwy arolygon ar-lein a 40 o gyfweliadau manwl â gweithwyr adeiladu.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag

**Adam Evans**
**Dadansoddwr – Dadansoddi a Rhagweld Diwydiant CITB**
**Adam.evans@citb.co.uk**

Sand Martin House, Bittern Way,
Peterborough PE2 8TY

0344 994 4400
**www.citb.co.uk**

Mae CITB wedi'i gofrestru yn Elusen Cymru a Lloegr Rhif 264289 ac yn yr Alban Elusen Rhif SC044875